# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## Y CABINET - DYDD IAU, 27 HYDREF 2022

## BWRDD ADDYSG, SGILIAU A LLES Y CABINET

## CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS

**Gweddarlledu/Cyfarfodydd Hybrid:**

**Gellir ffilmio’r cyfarfod hwn i’w ddarlledu’n fyw neu’n ddiweddarach drwy wefan y cyngor. Drwy gymryd rhan, rydych yn cytuno i gael eich ffilmio ac i’r delweddau a’r recordiadau sain hynny gael eu defnyddio at ddibenion gweddarlledu a/neu hyfforddiant o bosib.**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: N.Jenkins (Cadeirydd), J.Hurley (Is-Cadeirydd)

**Swyddogion sy’n Bresennol:**

C Griffiths, R.Crowhurst, H.Lervy, C.Millis, PWalker, S McCluskie ac A Thomas

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

   Cytunwyd i benodi'r Cyng. N Jenkins yn Gadeirydd y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cyng. Jenkins bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 27 Medi 2022 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2022/23**

Bod Blaenraglen Waith Bwrdd yr Amgylchedd, Adfywio a Strydlun y Cabinet yn cael ei nodi.

6. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni dderbyniwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

7. **ORIAU AGOR AR GYFER Y NADOLIG A'R FLWYDDYN NEWYDD (LLYFRGELLOEDD, CANOLFANNAU HAMDDEN ETC.)**

**Penderfyniad:**
Bod yr oriau agor a chau ar gyfer y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, ar gyfer llyfrgelloedd, theatrau, canolfannau cymunedol, Parc Gwledig Margam, canolfannau hamdden a phyllau nofio yn cael eu cymeradwyo, fel y nodwyd yn Atodiad 1 a 2 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Fel bod cyfleusterau'r cyngor ar gael i'r cyhoedd lle mae galw amdanynt i fod ar agor, ac i reolwyr wneud trefniadau priodol gyda staff rheng flaen.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Llun, 31 Hydref 2022.

**Ymgynghoriad:**
Nid oes gofyniad i ymgynghori'n allanol ar yr eitem hon.

8. **YMGYNGHORIAD DERBYNIADAU I YSGOLION CYMUNEDOL (YN DESTUN YMGYNGHORIAD)**

**Penderfyniad:**
Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, bod y Polisi Derbyn i Ysgolion Cymunedol 2024/2025, yn cael ei gymeradwyo i ymgynghori arno.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Er mwyn i'r cyngor gyflawni'i ddyletswyddau statudol a chanllawiau arfer da mewn perthynas â derbyn disgyblion i ysgolion cymunedol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Llun, 31 Hydref 2022.

**Ymgynghoriad:**
Mae angen ymgynghoriad â chyrff llywodraethu ysgolion cymunedol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol h.y. ysgolion ffydd, a phob awdurdod lleol cyfagos. Yn ogystal, bydd y cyngor yn ymgynghori ar y Fforwm Derbyniadau, a bydd y broses ymgynghori'n dod i ben ar 30 Rhagfyr 2022.

9. **STRATEGAETH CYFRANOGIAD A CHYNNWYS (CANIATÂD I YMGYNGHORI)**

**Penderfyniad:**
Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, bod Atodiad 2 y pecyn adroddiad a gylchredwyd, sef y Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltu, yn cael ei gymeradwyo i ymgynghori arno.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Er mwyn cwblhau a gwreiddio'r Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltu yn dilyn yr ymgynghoriad.

**Rhoi ar waith:**
Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Llun, 31 Hydref 2022.

**Ymgynghoriad:**
Cynhelir yr ymgynghoriad â'r holl randdeiliaid, gan gynnwys ysgolion, y trydydd sector, gwasanaethau partner, asiantaethau, rhieni/gofalwyr a phlant a phobl ifanc.

10. **RHAGLEN STRATEGOL GWELLA YSGOLION - ENWI YSGOL CYFRWNG CYMRAEG NEWYDD**

**Penderfyniad:**

1. Bod yr offeryn llywodraethu, a atodir fel atodiad A, o'r adroddiad a gylchredwyd, yn cael ei gymeradwyo, gyda dyddiad ymgorffori 1 Mawrth 2023, gan greu corff llywodraethu parhaol.

2. Bod yr ysgol yn cael ei henwi'n Ysgol Gynradd Gymraeg Tregeles.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

I gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol ar gyfer sefydlu'r ysgol newydd, sef Ysgol Gynradd Gymraeg Tregeles.

**Rhoi ar waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Llun, 31 Hydref 2022.

## 11. RHAGLEN CYMORTH BUGEILIOL

**Penderfyniad:**

1. Bod y Rhaglen Cymorth Fugeiliol newydd a'r amserlen lai yn cael eu cymeradwyo.
2. Bod yr arweiniad darparwyr amgen yn cael ei fabwysiadu.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Bydd y rhaglen a'r arweiniad darparwyr amgen yn cryfhau trefniadau a phrosesau monitro ymhellach ar gyfer dysgwyr sydd mewn peryg o ymddieithriad.

**Rhoi ar waith:**
Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Llun 31 Hydref 2022.

**Ymgynghoriad:**
Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori â'r rhanddeiliaid perthnasol.

## 12. ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU LLYFRGELLOEDD CYHOEDDUS CYMRU 2020-21

**Penderfyniad:**

1. Ar ôl rhoi sylw dyledus i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig: bod yr Adroddiad Blynyddol i Lywodraeth Cymru yn cael ei gymeradwyo.

2. Bod cynnwys adroddiad Llyfrgelloedd Cymru ar gyfer 2020-21 yn cael ei nodi.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Er mwyn i'r cyngor gydymffurfio â'i ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaeth llyfrgell yng Nghastell-nedd Port Talbot.

**Rhoi ar waith:**
Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Llun, 31 Hydref 2022.

**Ymgynghoriad:**
Nid yw'n ofynnol cynnal ymgynghoriad allanol.

13. **GWASANAETHAU ARCHIF GORLLEWIN MORGANNWG**

**Penderfyniad:**
Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith sgrinio integredig:

1. bod Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg yn cael ei adleoli o'r Ganolfan Ddinesig, Abertawe i hen siop British Home Stores a WHAT!

2. nodir bod y cyfrifoldebau rheoli'n trosglwyddo o Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i Bennaeth y Gwasanaethau Cefnogi a Thrawsnewid.

3. bod Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn cael awdurdod dirprwyedig i gytuno ar a chwblhau Gweithred Amrywio, i Gytundeb y Cyd-bwyllgor ar 11 Ebrill 2014, ac yn rhoi argymhellion 1 a 2 ar waith.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Er mwyn i breswylwyr Castell-nedd Port Talbot gael mynediad at wasanaeth archifau, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Cofnodion) 1972.

**Rhoi ar waith:**
Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Llun, 31 Hydref 2022.

**Ymgynghoriad:**
Nid yw'n ofynnol cynnal ymgynghoriad mewn perthynas â'r adroddiad hwn. Mae trafodaethau â Chyngor Dinas a Sir Abertawe wedi bod yn mynd rhagddynt fel rhan o'r gwaith datblygu.

14. **CWRICWLWM I GYMRU**

**Penderfyniad:**
Nodir yr adroddiad.

15. **DANGOSYDDION MONITRO PERFFORMIAD CHWARTER 1**

**Penderfyniad:**
Nodir yr adroddiad.

16. **DIWEDDARIAD AM Y GWASANAETH IEUENCTID**

**Penderfyniad:**
Nodir yr adroddiad.

17. **STRATEGAETH ARWEINYDDIAETH**

**Penderfyniad:**
Nodir yr adroddiad.

18. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys

**CADEIRYDD**